

GWEITHGAREDDAU

- * TYLINO * * DAWNSIO *
- * CERDDORIAETH GREADIGOL *
- *NOFIO* *SYMUD I GERDDORIAETH *
- *MABOLGAMPAU* *CHWARAEON* * GEMAU*
- * GWAITH COED A GARDDIO *
- * CELF A CHREFFT * * COGINIO* *CWSIAU*

BARN DEFNYDDWYR

**Mae wedi bod yn waredigaeth i fi!*

- * *Rwy'n meddwl am beth alla' i ei wneud yn*
- * *hytrach na beth na alla' i ei wneud!*
- * *Bydd pobl yn siarad yn gall â fi !*
- * *Mae wedi rhoi hunan-barch i fi*

Rwy'n gweld nawr fod gen i rywbeth i'w gynnig.

- * *Mae'n rhoi hoe i'r wraig*
- * *Mae'n fendigedig!*

OES DIDDORDEB GYDA CHI?

Os hoffech chi ymuno â Gorwelion Newydd bydd yn rhaid trefnu i weithiwr cymdeithasol eich asesu.

Am fwy o wybodaeth ffoniwch

LOUISE PAYNE ar **01446 731935**



Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol
Cyngor Bro Morgannwg



Dyma fath hollol wahanol o Wasanaeth Dydd sy'n cael ei gynnis gan Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol Cyngor Bro Morgannwg er mwyn bodloni anghenion pobl sydd:-

- ◆ yn anabl iawn yn gorfforol ar hyd yr amser
- ◆ rhwng 18 a 65 oed
- ◆ yn byw yn y gymuned yn ardal Cyngor Bro Morgannwg

Bydd y gwasanaeth yn nwylo tîm o staff profiadol hyfforddedig sy'n gweithredu'n ôl Codau Ymarfer Adrannol a Chenedlaethol. Gellwch ddod o hyd iddo yn Hen Goleg, College Fields Close, Y Barri (wrth ymyl Old College Inn) - canolfan sydd hefyd yn boblogaidd gan nifer o sefydliadau lleol eraill sy'n helpu pobl anabl. Byddwn yn trefnu gweithgareddau yn y gymuned yn ogystal â'r Ganolfan. Nod y gwasanaeth fydd:

“ Galluogi pobl anabl a sicrhau bod ganddynt gyfle cyfartal a phob rhyddid i ddewis, gweithredu'n annibynnol a datblygu'n bersonol”

Gobeithio y gallwn wella ansawdd bywydau pobl a rhoi cyfle iddynt weld

GORWELION NEWYDD

Rydym am i bawb fod yn fwy ymwybodol o anabledd yn ein cymunedau.

GALLWN EICH HELPU I

- ◆ fod yn fwy hyderus ac annibynnol
- ◆ fyw'n fwy cysurus ac iach a magu mwy o hunan-barch
- ◆ gadw a gwella eich sgiliau
- ◆ ddod o hyd i wybodaeth
- ◆ gwrdd â phobl a chreu cysylltiadau newydd
- ◆ gyrraedd eich nodau personol
- ◆ **FWYNHAU BYWYD**

DRWY -

- ◆ Gynllunio gwasanaeth dydd sy'n bodloni'ch union anghenion
- ◆ Roi gofal personol i chi
- ◆ Eich helpu i ddilyn gweithgareddau
- ◆ Drefnu gofal seibiant a helpu eich gofalwyr
- ◆ Drefnu trafndiaeth ar eich cyfer sy'n hawdd ei defnyddio
- ◆ Eich cefnogi'n emosiynol
- ◆ Ddarparu pryddau bwyd iachus ar eich cyfer
- ◆ Gynnig safle i chi sy'n hawdd ei ddefnyddio
- ◆ Drefnu gweithgareddau yn y gymuned
- ◆ Eich helpu i gyfathrebu
- ◆ Ddadlau o'ch plaid
- ◆ Drefnu gweithgareddau therapiwtig a chreadigol
- ◆ Eich helpu i fanteisio ar addysg a dod o hyd i swydd
- ◆ Gynnig gwybodaeth
- ◆ Gynnig therapi harddwch
- ◆ Drefnu gweithgareddau cymdeithasol
- ◆ **SICRHAU Y CEWCH DDIGON O HWYL**